

Presennol

Y Cyngorydd HJ David – Cadeirydd

CE Smith
SE Baldwin

HM Williams

D Patel

NA Burnett

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|--------------------|--|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |

668. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyngorydd Charles Smith fuddiant personol yn eitem 11 ar yr agenda
Datganodd y Cyngorydd Nicole Burnett fuddiant personol yn eitem 11 ar yr agenda
Datganodd y Cyngorydd Stuart Baldwin fuddiant personol yn eitem 11 ar yr agenda
Datganodd y Cyngorydd Dhanisha Patel fuddiant rhagfarnlyd yn eitem 16 ar yr agenda, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

669. PANEL ADFER TRAWSBLEIDIOL - ARGYMHELLION

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol adroddiad i amlinellu argymhellion y Panel Adfer Trawsbleidiol sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

Eglurodd fod y Panel Adfer Trawsbleidiol wedi cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2020, wedi ystyried asesiad effaith Cymunedol y BGC, ymateb y Cabinet i Argymhellion Cam 1, ac wedi dewis Tai a Digartrefedd fel maes allweddol i'w archwilio'n fanylach. Cyfarfu'r Panel ar 11 Mawrth a 14 Mai 2021 i wrando ar wahoddedigion o: Cartrefi Cymunedol Cymru; Sefydliad Tai Siartredig Cymru; Tîm Tai'r Awdurdod a Thîm Gwasanaeth Cymdogaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Dywedodd fod argymhellion wedi'u gwneud ar Dai a Digartrefedd yn y cyfarfod ar 14 Mai 2021. Cymeradwyodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yr argymhellion yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin 2021. Amlinellodd yr argymhellion hyn fel y'u nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol i'r holl Aelodau am gymryd rhan yn y broses o lunio'r argymhellion. Ychwanegodd nad oedd yr argymhellion yn rhai annisgwyl a'u bod wedi bod yn bynciau pwysig a oedd wedi bod cael sylw sylweddol a rheolaidd. Adleisiodd yr Arweinydd hyn a dywedodd fod CBSP eisoes yn blaenoriaethu lleoedd preswyl un a dwy ystafell wely i ddiwallu'r angen. Ychwanegodd fod CBSP, gan weithio gyda phartneriaid, yn datblygu darpariaeth ar y safle i bobl, a oedd yn cynnwys trosi eiddo masnachol segur ac adfeilledig.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet yn cytuno i ystyried argymhellion y Panel Adfer Trawsbleidiol (Atodiad A) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel rhan o'r broses adfer.

670. **RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION : CYNNIG MODERNEIDDIO YSGOLION GORLLEWIN PEN-Y-BONT AR OGWR - ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU DRAFFT**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad a oedd yn:

- hysbysu'r Cabinet o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu mewn perthynas â'r cynnig;
- gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi'r 'Adroddiad Gwrthwynebiadau' drafft ar wefan CBSP (Atodiad A i'r adroddiad); ac i
- ofyn i'r Cabinet benderfynu ar y cynnig.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd gefndir yr adroddiad a chytundeb y Cyngor i fabwysiadu'r 5 egwyddor ddiwygiedig fel fframwaith ar gyfer trefniadaeth ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel y nodir yn adran 3 o'r adroddiad.

Eglurodd fod yr adroddiad yn manylu ar y llwybr a ffafrir ar gyfer cynlluniau Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr a'r lleoliad a ffafrir ar gyfer yr ysgolion newydd. Nodir y rhain yn adran 3.3 a 3.4 o'r adroddiad.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod ymarfer ymgynghori wedi'i gynnal rhwng 25 Ionawr 2021 a 7 Mawrth 2021 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Roedd copi o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn ystod y cyfnod hwn ar wefan y Cyngor, a rhoddwyd dolen we yn rhan 3.7 o'r adroddiad er gwybodaeth. Roedd y ddogfen ymgynghori yn gwahodd sylwadau a barnau i'w cyflwyno mewn perthynas â'r cynnig. Yna cyhoeddwyd crynodeb o'r sylwadau a'r barnau ar ffurf Adroddiad Ymgynghori. Adroddwyd ar ganlyniad yr ymgynghoriad i'r Cabinet ar 6 Ebrill 2021 a rhoddwyd cymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus.

Dywedodd fod nifer o wrthwynebiadau wedi dod i law ynglŷn â'r cynigion, gan ysgogi'r angen i gyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau a oedd yn crynhoi'r gwrthwynebiadau yn ogystal ag ymateb yr awdurdod i'r gwrthwynebiadau. Roedd angen i'r Cabinet ystyried y cynnig gan ystyried y gwrthwynebiadau. Yna gallai'r Cabinet dderbyn, gwrthod, neu addasu'r cynnig.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y materion allweddol a godwyd o'r gwrthwynebiadau a grynhowyd fel a ganlyn:

- Pryderon ynglŷn ag ysgol fach yn symud i ysgol fwy
- Pryderon ynghylch maint/cyfleusterau'r safle
- Pryderon o ran diogelwch/diogelwch, parcio, seilwaith
- Cyflwr adeilad yr ysgol yn Afon y Felin
- Pryderon o ran amseru/proses
- Adeiladu tai yn yr ardal
- Dewisiadau eraill

Rhestrwyd manylion yr uchod yn adran 3 o Atodiad A.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y goblygiadau ariannol fel y nodir yn adran 8 o'r adroddiad. Eglurodd, pe bai'n cael ei gymeradwyo, y byddai angen cynnwys gofynion y gyllideb yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel tâl blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod hwn wedi bod yn fater parhaus a bod nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal ynglŷn â hyn. Eglurodd y bu tybiaethau a dryswch, a oedd yn ddealladwy, ond credai fod yr adroddiad wedi ymdrin â'r rhain yn drylwyr ac yn ofalus. Ychwanegodd fod yr ysgolion wedi cyflawni eu diben ac nad oeddent bellach yn addas at y diben hwnnw. Mae'r plant yng Nghorneli yn haeddu ysgolion gwell, ac roedd yr adroddiad hwn yn cynnig hynny. Ychwanegodd na fyddai angen i'r plant symud i'r ysgol newydd nes i bopeth gael ei gwblhau, gan roi amser i gynefino â'r amgylchedd newydd.

Cytunodd y Dirprwy Arweinydd â'r cynigion ac roedd yn falch o weld ethos yr ysgol fach yn parhau, gan fod hyn yn bwysig i ysgolion Corneli. Ychwanegodd nad oedd yr ysgol bresennol mewn cyflwr addas i'w defnyddio am lawer hirach, a chredodd fod angen sicrhau ysgol addas i'r diben cyn gynted ag sy'n bosibl.

Holodd yr Arweinydd faint o waith atgyweirio yr oedd safleoedd presennol yr ysgol ei angen. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod nifer o'r atgyweiriadau yn adeilad Afon y Felin yn ymwneud â'r ffenestri a'r waliau, ac o fewn yr adeilad roedd problemau wedi'u nodi o ran lloriau, gwres, a thrydan. Yna trefnwyd y rhain yn ôl difrifoldeb ac angenrheidrwydd. Gofynnodd yr Arweinydd beth oedd cyflwr y ddwy ysgol arall, Ysgol Y Ferch o'r Sgêr ac Ysgol Gynradd Corneli.

Eglurodd Rheolwr Rhaglen yr Ysgol fod yr ysgolion hyn hefyd mewn cyflwr tebyg i Afon y Felin, a bod y rhestr o waith atgyweirio i'w wneud ar lefel debyg. Amlinellodd Rheolwr y Prosiect – Moderneiddio Ysgolion fanylion allweddol yn ymwneud â'r mathau o atgyweiriadau.

Roedd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn cydymdeimlo â phryderon y rhieni, ond ychwanegodd y gall ethos yr ysgol fach barhau i fodoli mewn ysgol fwy, gyda'r manteision ychwanegol o fod mewn ysgol fwy, megis mwy o glybiau ôl-ysgol, mwy o amrywiaeth o athrawon ac ati. Soniodd am ei phlant ei hun yn gwneud cam tebyg er enghraifft, gan drafod yr effaith gadarnhaol a gafodd arnynt.

Croesawodd Cymunedau'r Cabinet yr adroddiad ac adleisiodd sylwadau aelodau eraill y Cabinet. Nododd fod y boblogaeth yn tyfu'n barhaus, a bod gofyniad am leoedd mewn ysgolion a gofynnodd sut y byddai'r ysgol newydd yn caniatáu hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai'r nod, lle bynnag y bo modd, oedd cynnwys mwy o le nag oedd angen yn yr ystafelloedd dosbarth, a hynny er mwyn gallu hwyluso'r twf a darparu rhywfaint o ddiogelu rhag y dyfodol.

Gofynnodd yr Arweinydd pa wersi a ddysgwyd o brofiadau blaenorol wrth drosglwyddo o hen safle i safle newydd, a'r hyn y gellir ei ddisgwyl yn ystod y trawsnewidiad hwn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod cyfnod pontio tebyg wedi digwydd gydag ysgolion yn ardal y Betws, lle sefydlwyd cyfarfodydd gydag athrawon a phenaethiaid a oedd wedi profi hynny o'r blaen i drafod y materion yn ymwneud â phontio, a bu hynny'n fuddiol wrth symud ymlaen. Ychwanegodd y byddai trefniadau ffurfiol ac anffurfiol yn digwydd ynglŷn â'r cynigion presennol. Bydd y trefniadau ffurfiol yn dilyn y newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, a'r trefniadau anffurfiol fydd y gwaith o ymgysylltu â'r ysgolion a'r cyrff llywodraethu presennol gyda'r nod o gynnal cryfderau a hunaniaethau'r ysgolion presennol wrth symud i'r ysgol newydd.

Amlinellodd Rheolwr Rhaglen yr Ysgol rai meysydd allweddol sy'n cael eu gwella yn yr ysgol newydd, gan gynnwys mannau chwarae meddal a chyfleusterau llyfrgell, man gollwng posibl i blant, maes parcio staff, dyluniad sy'n hwyluso'r gwaith o redeg yr ysgol bob dydd o gymharu â'r hen ysgolion, yn ogystal â mynediad a chyfeiriadedd yr ysgol o ran golau dydd gweladwy.

PENDERFYNIAD:

Fod y Cabinet wedi:

- Nodi'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd fel y nodir yn yr adroddiad gwrthwynebu drafft amgaaedig a'r atodiadau;
- Cymeradwyo'r adroddiad gwrthwynebiadau drafft i'w gyhoeddi; a
- Cytuno i fwrw ymlaen â'r cynllun fel yr amlinellwyd

671. **POLISI DIOGELU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig fel y nodir yn Atodiad 1.

Eglurodd mai ym mis Awst 2020 y diwygiwyd y polisi ddiwethaf, a'i fod bellach wedi'i ddatblygu ymhellach i ehangu gofynion polisi ym meysydd llywodraethu, sicrhau ansawdd, gweithlu diogel, a gwasanaethau diogel. Roedd y diwygiad yn amlinellu atebolrwydd penodol pob Cynghorydd ac aelod o weithlu CBSP i ddiogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y polisi diwygiedig yn seiliedig ar 4 maes diogelu allweddol sef:

- Llywodraethu effeithiol
- Sicrhau ansawdd perfformiad
- Gweithlu diogel
- Gwasanaethau diogel

Ychwanegodd, er mwyn sicrhau ansawdd ac adrodd, y byddai adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu yn ogystal â'r Cabinet, gyda'r adroddiadau priodol gan Archwilio Cymru, AGC ac ESTYN yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Cabinet. Ychwanegodd fod rhaid ystyried diogelu yn holl drefniadau contractio a chomisiynu'r dyfodol.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr adroddiad a dywedodd fod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb fel unigolion ac ar y cyd. Gofynnodd i Lywodraethwyr AALI a benodwyd gan yr awdurdod dderbyn hyfforddiant diogelu angenrheidiol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi'i diweddarau a'i bod yn disgwyl i lywodraethwyr sydd â chyfrifoldebau diogelu gymryd yr hyfforddiant perthnasol ar lefel 3 neu gymhwyster CBSP cyfwerth, a bod rhaid i bob llywodraethwr gwblhau'r modiwlau perthnasol ar 'gadw dysgwyr yn ddiogel'.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau sut y byddai'r polisi'n cael ei gyhoeddi a pha gyfrifoldebau oedd ynddo i sicrhau bod dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r risgiau yn ei feithrin ymhlith y gymuned. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles eu bod yn ymdrechu'n gyson i wella ymwybyddiaeth o ddiogelu yn ogystal ag adrodd am unrhyw fater a allai fod yn berthnasol, a'i bod yn well rhoi gwybod

am rywbeth na pheidio. Ychwanegodd ei bod yn bwysig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei harddangos ar wefan CBSP a'i bod yn hygyrch i bawb, gan ddangos sut i roi gwybod am faterion yn ogystal â nodi manylion cyswllt arferol a rhai y tu allan i oriau.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Diogelu
Corfforaethol

672. DATBLYGU HWB PLANT BRYNMENYN

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am:

- datblygiadau Maple Tree House (uned argyfwng ac asesu plant/Canolfan Leoli Plant") mewn perthynas â'r cynlluniau i adleoli'r gwasanaeth, ac;
- yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant (yn rhinwedd ei swydd fel Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth) oruchwylio a monitro gweithrediad y cynlluniau fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ei bod yn flaenoriaeth i sicrhau bod lleihad diogel yn digwydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, ond roedd yr un mor bwysig bod pob plentyn yn gallu cael asesiadau amserol, ymyriadau therapiwtig, gofal, llety, a chymorth.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y sefyllfa bresennol fel y nodir yn adran 4 o'r adroddiad. Amlinellodd y dyluniadau a'r cynlluniau ar gyfer datblygiad newydd arfaethedig ar gyfer Hwb Lleoli Plant sydd wedi'i gynllunio'n arbennig a'i adeiladu'n bwrpasol, un a allai ddarparu'r model gwasanaeth sydd newydd ei weithredu yn effeithiol.

Amlinellodd fod cyfanswm o £2.25 miliwn o gyllid cyfalaf wedi'i sicrhau ar gyfer datblygu'r Ganolfan newydd, wedi'i dadansoddi fel y nodir isod:

- Cymeradwywyd Cais Cyfalaf CBSP o £600k, a gynhwyswyd yn wreiddiol yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19, ac a gyflwynwyd wedyn o ganlyniad i'r oedi a amlinellir uchod;
- Mae £750k wedi'i glustnodi o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan CBSP; a
- Dyranwyd Cyllid Cyfalaf ICF (Cronfa Gofal Integredig) o £900k i CBSP hefyd, sy'n cynnwys £164k yn 2020/21 a £736k yn 2021/22.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y gwnaed cais am arian ychwanegol gan ICF rhanbarthol er mwyn ariannu'r dodrefn angenrheidiol. Ychwanegodd fod gweithredu'r model newydd eisoes wedi arwain at arbedion MTFS rheolaidd o £245k, ac roedd y gwasanaeth wedi ymrwymo'n llwyr i'r model newydd gan ddisgwyl y gellid gwneud arbedion ychwanegol yn y dyfodol, yn ogystal â galluogi gostyngiad yn y ddibyniaeth ar leoliadau costus y tu allan i'r Sir.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr adroddiad a mynegodd ei balchder o gael cyfleuster fel hwn yn y sir. Eglurodd fod y plant hyn wedi cael ystod eang o brofiadau trawma a bydd y cyfleuster newydd yn darparu'r lleoliad gorau ar eu cyfer ac yn caniatáu darparu ar eu cyfer mewn ffordd gyfannol, therapiwtig, sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol am ragor o wybodaeth am yr ymgysylltu â'r gymuned sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn.

Eglurodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol y Plant fod cynlluniau'n cael eu trafod gydag Aelodau lleol, a bod cynlluniau pellach yn cael eu gwneud i'w trafod gyda'r trigolion lleol a'r gymuned ehangach. Ychwanegodd fod datganiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi a bod trafodaethau gyda'r datblygwr wedi digwydd a'u bod wedi datgan y byddai rhagor o wybodaeth drwy daflenni yn cael ei darparu i drigolion lleol i amlinellu'r dyddiadau dechrau a cherrig milltir eraill yn ymwneud â'r gwaith. Ychwanegodd eu bod wedi ymgynghori â'r Aelod Seneddol a'r Aelod o'r Senedd hefyd a'u bod yn cefnogi'r cynllun.

PENDERFYNIAD:

Fod y Cabinet wedi:

- Nodi cynnwys yr adroddiad hwn; a
- Chymeradwyo fod Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant (yn rhinwedd ei swydd fel Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth) yn goruchwylio a monitro'r broses o weithredu'r cynlluniau fel y nodir yn yr adroddiad hwn

673. **POLISI ARIANNOL GORCHYMYN GWARCHEIDWAETH ARBENNIG**

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp ar gyfer Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr adroddiad a oedd yn:

- Rhoi manylion Polisi Ariannol arfaethedig y Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig (SGO) i'r Cabinet (a fydd yn cefnogi'r Polisi Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig sydd wedi'i ddiweddarau).
- Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r polisi a dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Plant i weithredu'r polisi newydd.

Rhoddodd y Rheolwr Grŵp ar gyfer Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr gefndir y Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig (SGO) a phryd fyddai'n briodol ei weithredu, a darparodd ffigurau ar nifer y plant arferai dderbyn gofal ond sydd bellach ddim ers 2014. Esboniodd fod gan CBSP Bolisi Gwarcheidwaeth Arbennig, ond yn dilyn adolygiad ym mis Tachwedd 2020, roedd angen mwy o eglurhad mewn perthynas â'r Cymorth Ariannol sydd ar gael i Warcheidwaid Arbennig ac, er mwyn gwneud hyn, roedd angen "Polisi Ariannol Gorchymynion Gwarcheidwaeth Arbennig" annibynnol. Roedd hwn ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Eglurodd y Rheolwr Grŵp ar gyfer Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr fod ymgynghoriad cyhoeddus ar Bolisi Ariannol y Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig wedi'i gynnal dros gyfnod o ddeuddeng wythnos rhwng 15 Chwefror a 9 Mai 2021, ac roedd yr Adroddiad Ymgynghori llawn wedi'i atodi yn atodiad 3 gyda'r crynodeb o'r ffigurau allweddol a amlygwyd yn adran 4.4 o'r adroddiad.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr adroddiad a chafodd ei syfrdanu gan arwyddocâd y gostyngiad yn y ffigurau yn y nifer sy'n manteisio ar orchymynion gwarcheidwaeth arbennig, a byddai gweld cynnydd yn hyn yn dangos gostyngiad cadarnhaol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Os gallai plant fod mewn amgylchedd sefydlog o fewn eu teulu eu hunain, ychwanegodd, gyda chefnogaeth a'r gwarcheidwaid arbennig, yna byddai hyn o fudd i'r plant.

Adleisiodd yr Arweinydd hyn a dywedodd mai gwarcheidwaeth arbennig oedd un o'r dulliau mwyaf buddiol sydd ar gael i sicrhau sefydlogrwydd i'r plant. Ychwanegodd y byddai'r polisi'n cael ei adolygu i sicrhau ei fod mor addas ac y gallai fod, ac i wneud newidiadau pe bai angen. Ychwanegodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y byddai'r

polisi'n cael ei adolygu, ond rhoddodd sicrwydd y byddai unrhyw sylwadau neu awgrymiadau a wneir y tu allan i adolygiad blynyddol yn cael eu hystyried.

PENDERFYNIAD:

Fod y Cabinet yn cymeradwyo Polisi Ariannol y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a'n rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Plant i weithredu'r polisi newydd

674. SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU 2019-2020

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol adroddiad a oedd yn amlinellu perfformiad y Cyngor yn erbyn chweched fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC) ar gyfer y cyfnod 2019-20

Eglurodd y Rheolwr Grŵp ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol fod CBSP, ar 1 Hydref 2015, wedi trosglwyddo'r rheolaeth weithredol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau diwylliannol, gan gynnwys y gwasanaeth llyfrgell, i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Y Cyngor sydd dal i fod â'r ddyletswydd statudol i ddarparu'r gwasanaeth llyfrgelloedd ac i adrodd ar ei berfformiad, ond Awen, o dan delerau'r cytundeb rheoli, sy'n darparu'r wybodaeth ofynnol ar berfformiad mewn perthynas â'r safonau, a hynny er mwyn bodloni bod y gwasanaeth yn bodloni'r canlyniadau a ddymunir.

Rhoddodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ei ddiolch i'r swyddogion dan sylw ac roedd yn falch o weld Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen (AWC) yn cael ei nodi fel y gorau yng Nghymru mewn arolwg. Ychwanegodd fod AWC wedi bod yn cydweithio'n agos gyda CBSP ers nifer o flynyddoedd yn y gwaith strategol o gynllunio gwasanaethau llyfrgell a'r modd y gwneir y gwaith o fuddsoddi mewn plant a phobl ifanc

Amlinellodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen nifer o newidiadau a oedd wedi digwydd yn ystod dechrau'r pandemig. Dywedodd fod cynnydd yn y defnydd o e-lyfrau ac e-adnoddau yn ystod y cyfnod hwnnw, yn ogystal â chynnydd o 30% yn y nifer o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau llyfrgell yn gyffredinol. Ychwanegodd fod cynnydd pellach yn nifer y bobl a fu'n derbyn llyfrau gartref, a anogwyd gan CBSP drwy'r pandemig.

Eglurodd Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen na fyddai Llywodraeth Cymru, am y ddwy flynedd nesaf, yn cyhoeddi adroddiadau asesu fel yr oeddent wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol. Yn hytrach, byddent yn darparu dadansoddiad o sut yr oedd gwasanaethau llyfrgell ledled Cymru wedi ymateb i'r pandemig. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gwahanol ffyrdd y bu'n rhaid i wasanaethau llyfrgell ymdopi ac ymateb i effeithiau'r pandemig.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at bwysigrwydd y gwasanaeth llyfrgelloedd symudol a pha mor fuddiol ydoedd yn ystod y pandemig, yn enwedig i bobl a oedd yn gwarchod eu hunain/ yn hunanynysu.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yr adroddiad a chytunodd â'r pwynt nad llyfrau yn unig oedd llyfrgelloedd, eu bod yn gartref i nifer o adnoddau yn ogystal â chyfrifiaduron i'w defnyddio. Roedd hi'n falch bod ansawdd y cyfrifiaduron wedi gwella, a bod hynny'n dangos bod y strategaeth yn canolbwyntio ar ddarparu ansawdd yn hytrach na niferoedd. Ychwanegodd fod yr allgymorth i bobl iau yn gadarnhaol iawn gan fod darllen yn rhan bwysig o ddysgu.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol sut aeth y broses o amnewid y cerbyd hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer y llyfrgell deithiol o ran gweithrediadau, ac a gafwyd unrhyw adborth neu sylwadau am y cerbyd newydd. Eglurodd Cyfarwyddwr

Gweithrediadau Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen fod y cerbyd newydd wedi caniatáu gwasanaeth mwy effeithlon yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth i gwmpas ehangach y gymuned.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr adroddiad ac adleisiodd sylwadau'r aelod Cabinet. Credai fod llyfrau'n rhan bwysig o ddysgu ac yn ddihangfa i lawer, felly roedd yn falch o weld y gwasanaeth yn gwneud cystal. Gofynnodd, o ystyried y cynnydd yn y galw am adnoddau digidol, ai'r cynllun oedd cynnal yr un lefel o lyfrau print neu symud tuag at y llyfrau digidol.

Credai Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen nad oedd y galw am lyfrau printiedig yn mynd i ostwng yn sylweddol unrhyw bryd yn fuan, ond roedd hyn yn rhywbeth sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Ychwanegodd eu bod yn edrych ar y galw a sut a ble i fuddsoddi arian ei o flwyddyn i flwyddyn. Ychwanegodd fod mwy o arian wedi'i roi ar gyfer e-lyfrau eleni oherwydd y pandemig a'r llyfrgell yn methu ag agor.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i staff y llyfrgell am eu gwaith caled yn y gymuned

Soniodd y Prif Weithredwr am yr ail argymhelliad yn yr adroddiad a phwysleisiodd bwysigrwydd symud hyn yn ei flaen. Eglurodd mai un o'r heriau oedd parhau i fuddsoddi mewn llyfrgelloedd a gwella eu rôl fel canolfan gymunedol ar gyfer gweithio neu ganfod gwybodaeth neu wasanaethau penodol. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai angen i'r gwasanaeth, wrth symud ymlaen, addasu i anghenion a thueddiadau'r hyn y mae pobl ei eisiau, a gofynnodd am sicrwydd ar hyn. Cadarnhaodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen fod hyn yn wir a rhoddodd enghraifft o wasanaeth Clicio a Chasglu yn ystod y pandemig. Dywedodd fod hyn wedi profi'n boblogaidd iawn ac y byddai'n debygol o barhau ar ôl pandemig.

PENDERFYNIAD:

Fod y Cabinet wedi:

- Ystyried a nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiad 1 gan gydnabod blwyddyn gadarnhaol o gynnydd yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru;
- Nodi y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar wneud y defnydd gorau o adnoddau i gefnogi gweithrediadau llyfrgelloedd sy'n gysylltiedig â chynllunio adferiad Covid-19, gan gynnwys argaeledd lleoliadau yn y dyfodol a dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau.

675. **CYNLLUN GWRES CAERAU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad a oedd yn:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar weithgarwch diweddar mewn perthynas â Chynllun Gwres Caerau
- Ceisio penderfyniad ar y ffordd ymlaen;
- Ceisio awdurdod i gyflwyno cynllun wedi'i ail-broffilio i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Eglurodd fod adroddiad i'r Cabinet ym mis Ionawr 2021 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn 2020, a'r heriau (ariannol yn enwedig) a oedd yn wynebu'r cynllun bryd hynny. Cytunwyd i gynnal Arfarniad Opsiynau er mwyn pennu hyfywedd ac addasrwydd dulliau darparu amgen id darparu cynllun gwres carbon isel yng Nghaerau sy'n bodloni gofynion cyllid cymeradwy'r ERDF. Yna, byddai argymhellion yr Arfarniad Opsiynau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, er bod y cynllun Caerau hwn wedi'i ariannu'n llawn, bod nifer o byrth penderfyniadau wedi'u nodi yn nhabl 1 yr adroddiad, a oedd yn caniatáu i'r cynllun gau pe na bai digon o gynnydd wedi'i wneud.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau sylw at yr opsiynau a adolygwyd yn yr arfarniad opsiynau ac ystyriwyd y rhain yn erbyn meini prawf penodol. Roedd y manylion pellach yn 4.2 a 4.3 o'r adroddiad. Ychwanegodd fod bwrdd rhaglen Datgarboneiddio 2030 wedi cynnal adolygiad o'r wybodaeth hon a phenderfynodd y dylid mynd ar drywydd opsiwn (d) o dan adran 4.2 uchod a'i gyflwyno drwy ail-broffil i WEFO. Roedd Opsiwn (d) yn 'opsiwn cyfunol', gan gynnwys cyfres o brosiectau arddangos gwres carbon isel ar raddfa fach, pob un wedi'i ddatblygu i weddu i leoliad gwahanol yn seiliedig ar newidynnau megis y math o gwsmer, dwysedd tai ac agosrwydd at adnoddau. Roedd rhagor o wybodaeth am 4.4 o'r adroddiad,

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mai'r camau hanfodol nesaf mewn perthynas â darparu'r arddangoswr gwres dŵr ar raddfa fach, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, yw sicrhau'r cytundebau angenrheidiol gan yr Awdurdod Glo i barhau i archwilio dŵr mwyngloddiau ar y safle arddangos ac i roi'r holl drwyddedau, caniatâd a chydysyniadau angenrheidiol ar waith i wneud hynny o fewn amserlen darged Hydref 2021. Roedd rhagor o fanylion yn adran 4.7 a 4.8 o'r adroddiad.

Amlinellodd y goblygiadau ariannol fel y'u nodir yn adran 8 o'r adroddiad ac ailadroddodd fod y cynllun wedi'i ariannu'n llawn hyd at ddechrau darparu gwres a phŵer.

Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau'r adroddiad a phwysleisiodd bwysigrwydd y prosiect hwn o ran cyflawni'r nod o ddatgarboneiddio erbyn 2030. Diolchodd i'w gyn-Aelod Cabinet, y Cynghorydd Richard Young am y gwaith a roddodd ar y prosiect yn ogystal ag Aelodau Caerau am eu cefnogaeth a'u gwaith caled.

PENDERFYNIAD:

Fod y Cabinet wedi:

- Cymeradwyo dilyn yr argymhelliad ar gyfer Cynllun Gwres Caerau fel yr amlinellir yn adran 4.4 o'r Adroddiad, gan ddarparu datrysiad cyfunol o gynllun arddangos dŵr mwyngloddio i wasanaethu Ysgol Gynradd Caerau, rhwydwaith gwres ardal gyda ffynhonnell wres amgen i wasanaethu cartrefi ar Tudor Estate, a chyflenwad pŵer gwifren breifat o Barc Ynni Adnewyddadwy Llynfi Afan;
- Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio a'r Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid, i gyflwyno ail-broffil Cynllun 2021 i WEFO yn seiliedig ar y ffordd ymlaen a argymhellir ac a amlinellir yn adran 4.4 a'r wybodaeth ariannol yn adran 8.2; a
- Pe bai WEFO yn derbyn ail-broffil Cynllun 2021, i ddirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid i lofnodi a derbyn y cynnig grant ERDF diwygiedig a'r llythyr ariannu gan WEFO mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a'r Prif Swyddog - Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio

676. **RHEOLI ARWYDDION TRAFFIG**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i atal y Rheolau Caffael Contract perthnasol ac i ymrwymo i

gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RCTCBC) ar gyfer rheoli signalau traffig y cyngor.

Eglurodd fod y gwaith o fonitro a rheoli signalau traffig wedi'i reoli'n flaenorol drwy'r trefniant ymgynghori Cyd-fenter rhwng Capita Redstart, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RCTCBC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (MTCBC).

Ychwanegodd fod RCTCBC wedi symud y gwaith o reoli signalau traffig 'yn fewnol', a arweiniodd at Reoliad Trosglwyddo Ymgymeriadau (TUPE) o staff o'r Gyd-fenter i RCTCBC o fis Mawrth 2021. O ganlyniad, nid yw'r Gyd-fenter bellach y gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth monitro hwn ar gyfer CBSP.

Roedd RCTCBC wedi cynnig cyfle i CBSP, drwy gytundeb lefel gwasanaeth, i gael RCTCBC i fonitro signalau traffig CBSP heb unrhyw effaith o ran lefel gwasanaeth na chost gwasanaeth, sef tua £35,000 y flwyddyn.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod ystyriaeth wedi'i rhoi i'n darpariaeth fewnol ein hunain a bod hynny wedi awgrymu, ar wahân i'r feddalwedd a'r offer monitro angenrheidiol, y byddai angen staff ychwanegol hefyd i fonitro ac i feddu ar yr arbenigedd technegol i addasu signalau traffig. Roedd y ffactorau hyn yn unig yn awgrymu costau o fwy na £35,000. Amlinellodd y manteision o gael RCTCBC i reoli'r gwasanaeth signalau traffig, fel y rhestrir yn 4.3 o'r adroddiad.

Esboniodd y byddai angen i CBSP atal y Rheolau Gweithdrefn Contract er mwyn ymrwmo i'r cytundeb hwn. Roedd swyddogion wedi ystyried manteision cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o gymharu â'r risgiau o beidio â chydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r cyngor, ac yn credu ar y cyfan fod trefniant cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynrychioli gwerth da, yn sicrhau'r diogelwch cyhoeddus mwyaf posibl, ac fe'i cynigiwyd fel y ffordd ffafriol ymlaen.

Croesawodd Yr Aelod Cabinet dros Gymunedau yr adroddiad a dywedodd fod y staff blaenorol a oedd yn gweithio ar y gyd-fenter wedi symud ymlaen i RCTCBC a bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth effeithiol.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn adleisio'r sylwadau ac yn credu bod caffael gan bartner ac awdurdod lleol cyfagos yn gwneud synnwyr o ystyried lefel yr arbenigedd a oedd ganddynt ar ein system draffig.

PENDERFYNIAD:

Fod y Cabinet wedi:

- atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor mewn perthynas â'r gofynion sy'n ymwneud â chaffael y ddarpariaeth o fonitro signalau traffig, ac y byddai RCTCBC yn ei gyflawni;
- rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i gymeradwyo telerau terfynol y cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a threfnu i'r cytundeb cydweithio gael ei weithredu ar ran y Cyngor, ar yr amod bod awdurdod dirprwyedig o'r fath yn cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio a'r Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid.

677. **UWCHGYNLLUN AC YMGYNGHORIAD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR AR GYFER ADFYWIO CANOL TREF PEN-Y-BONT AR OGWR**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ddatblygiad Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a chanlyniad y broses ymgynghori cyhoeddus a ddaeth i ben ar 1 Mawrth 2021. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau hefyd i'r Cabinet gytuno ar y camau nesaf arfaethedig wrth gymeradwyo'r cynllun terfynol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau gefndir Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r Uwchgynllun yn ddogfen gynllunio hirdymor ddeinamig a oedd yn cynnig cynllun damcaniaethol, gan adeiladu ar gryfderau niferus y Dref, i lywio adfywiad a thwf yn y dyfodol.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau yr hyn a gynhwyswyd yn yr Uwchgynllun ac eglurodd ei fod wedi'i ddylunio i fod yn uchelgeisiol, a nododd gyfres o brosiectau y gellir eu cyflawni a'u dyheadau dros y tymor byr, y tymor canolig, a'r hirdymor. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos rhwng 7 Rhagfyr 2020 a 1 Mawrth 2021. Cafwyd 1402 o ryngweithiadau yn sgil cyfuniad o gwblhau arolygiadau, digwyddiadau cyfryngau cymdeithasol, e-byst a llythyrau, a sesiynau ymgysylltu. Cafwyd cyfanswm o 51 o gwestiynau a sylwadau, a chrosawyd barn drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Derbyniodd y dudalen we gyfanswm o 1,549 o gliciau cyswllt, gyda'r fideo eglurhaol wedi cael ei wyllo 10,673 o weithiau. Atodiad C i'r adroddiad oedd yr Adroddiad Ymgynghori llawn, a oedd yn manylu ar yr holl ymatebion i'r holl gwestiynau a'r holl sylwadau a themâu ymgysylltu o'r cyfryngau cymdeithasol a'r sesiynau ymgysylltu.

Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau am rai o'r prif ymatebion a nododd fod y mwyafrif helaeth o'r ymatebion yn gadarnhaol ac yn gweld y cyfleoedd a gyflwynwyd ar gyfer Canol y Dref yn rhai adeiladol. Ychwanegodd y byddai cyfarfod ym mis Gorffennaf gyda phartneriaid ynglŷn â mynedfa'r orsaf reilffordd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio iddo fod yn rhan o drafodaethau gyda nifer o wahanol grwpiau am y prif gynllun a bod y cyhoedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad. Roedd y canfyddiadau'n gyson ac roedd pob un yn gadarnhaol ac yn gefnogol iawn i'r cysyniad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod hwn yn adroddiad a chynllun uchelgeisiol ar gyfer canol y dref ac roedd yn edrych ymlaen at weld rhai o'r canlyniadau wrth iddo fynd rhagddo dros y blynyddoedd.

Eglurodd yr Arweinydd fod hyn, fel y dangoswyd gan yr eitem nesaf ar yr agenda, yn enghraifft o uchelgais yn troi'n realiti. Roedd yn hapus gyda lefel yr ymgysylltu ac yn hapus i gefnogi'r Uwchgynllun ac iddo gyd-fynd â'r CDLI. Roeddent yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru fel un o'r partneriaid allweddol ac un o'r sefydliadau ariannu allweddol a byddent yn parhau i wneud hynny.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod, fel un o'r aelodau lleol, yn ymwybodol o hyn ar wahanol lefelau. Byddent yn gweithio gyda thrigolion lleol ac yn ymwybodol y byddai materion a phryderon yn cael eu codi ac y byddent yn cael eu hystyried. Roedd nifer o drigolion yn byw o amgylch ardal canol y dref. Roedd canol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn arfer bod yn fywiog iawn, gydag amrywiaeth iach o breswylwyr, masnachwyr, a chyfleusterau cymunedol ac roeddent yn awyddus i'w gadw felly.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod yn galonogol gweld, er iddynt golli rhai busnesau o'r dref, bod busnesau eraill yn agor drwy'r amser.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau wedi sicrhau preswylwyr na fyddai dim yn mynd yn ei flaen heb ganiatâd cynllunio ac y byddent, fel rhan o'r broses honno, yn ymgynghori'n eang eto. Byddai digon o gyfle i breswylwyr gymryd rhan ac i'r Cyngor glywed eu barn.

Atebodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio nad mater o ddymchwel adeiladau oedd hyn, a bod y term Uwch-gynllun yn cyfeirio at weledigaeth ac arwain y gymuned ymlaen i foderneiddio'r hyn sydd yno, defnyddio'r dreftadaeth a symud ymlaen. Credai fod trigolion lleol yn gwerthfawrogi hyn

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

- Cymeradwyo canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn cadarnhau y gellid bwydo'r canlyniadau hyn i'r Nodyn Ymgynghori yn nogfen y Uwch-gynllun.
- Cymeradwyo adolygiad o'r adran bolisi o fewn yr Uwch-gynllun er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r CDLI newydd.

Croesawu adroddiad yn y dyfodol i lofnodi'r ddogfen derfynol a chael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar brosiectau allweddol.

678. **CYNNIG I BRYNU GORSAF HEDDLU CANOL TREF PEN-Y-BONT AR OGWR**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed ar bryniant arfaethedig Gorsaf Heddlu Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn Cheapside gyda'r bwriad o gefnogi dyheadau Coleg Pen-y-bont ar Ogwr i adleoli eu prif gampws i ganol y dref, ac i geisio cymeradwyaeth i symud ymlaen gyda chais am arian grant i Lywodraeth Cymru (LIC) i gefnogi'r bwriad i gaffael adeilad Gorsaf yr Heddlu a'i ddymchwel yn y dyfodol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod swyddogion wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi eu dyheadau i drawsnewid eu hamgylchedd dysgu. Dechreuodd hyn gyda'u Rhaglen Amlinellol Strategol a nodiodd yr angen i foderneiddio prif gampws Cowbridge Road y Coleg drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Byddai Cowbridge Road yn cael ei rhannu'n ddau gynllun, academi STEAM newydd (canolfan Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, y Celfyddydau a Mathemateg) ar Gampws Pencoed, ac yna adleoli rhan o'r ddarpariaeth i Ganol y Dref. Ar y cyd, cafwyd trafodaethau gyda Heddlu De Cymru ynghylch eu penderfyniad i gyfuno eu swyddfeydd ar eu safle yn Cowbridge Road, gan awgrymu y gallai Gorsaf yr Heddlu yn Cheapside ddod yn wag o fis Mawrth 2022. Felly, roedd ail-ddatblygu safle Gorsaf yr Heddlu wedi'i nodi fel un o'r safleoedd adfywio allweddol y gellir ei gyflawni. Gan ei fod ond 0.2 milltir o Orsaf Drenau Pen-y-bont, cynigai gyfleoedd sylweddol i hyrwyddo teithio llesol a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus i'r safle

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Ebrill eleni wedi cyflwyno Cynnig Amlinellol Strategol (SOP) i Banel Buddsoddi Rhaglenni Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru i'w ystyried yn rhaglen bresennol Band B. Roedd hyn yn llwyddiannus, ac roedd y Coleg bellach yn cynnal trafodaethau gyda'u corff llywodraethu i fuddsoddi yn y cam datblygu a dylunio manwl ar gyfer campws Canol y Dref. Y cynnig oedd i CBSP gaffael safle presennol Gorsaf yr Heddlu yn Cheapside, ac i ddymchwel yr adeilad presennol gyda'r nod o brydlesu'r safle i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr drwy brydles hirdymor. Byddai hyn yn galluogi i weddill y ddarpariaeth addysg sydd ar gampws Cowbridge Road Coleg Pen-y-bont ar Ogwr gael ei adleoli i ganol y dref. Roedd swyddogion wedi datblygu trafodaethau teiran gyda Choleg Pen-y-bont ar Ogwr a SWP mewn perthynas â gwerthu a phrynu'r safle. Nododd prisiad marchnad o'r eiddo yn unol â'r Protocol Trosglwyddo Tir fod y tir werth £650,000,

ac roedd pob parti yn cytuno â'r gwerth a adroddwyd. Ceisiwyd grant gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i gefnogi'r bwriad i gaffael y teitl rhydd-ddaliadol, i adfywio safle trefol gwag, i ddymchwel yr adeilad, ac i sicrhau a gwneud defnydd iawn o'r safle.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau ei bod newydd glywed bod Panel Cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod ac wedi argymhell cymeradwyo'r arian grant, felly bydd hyn yn awr yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog i'w gymeradwyo.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod heddiw'n ddiwrnod hanesyddol. Diolchodd i'r Timau Adfywio, Addysg a Chymunedau am gydweithio ar hyn.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod hwn yn gyfle i ddylanwadu ar safle allweddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac roedd wrth ei fodd yn cefnogi'r cynnig.

Diolchodd yr Arweinydd i'r tîm am eu gwaith caled ar yr Uwch-gynllun a'r cynnig hwn.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

- Nodi'r cynnydd a wnaed o ran y bwriad i gaffael Gorsaf Heddlu bresennol Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn Cheapside a'r cynigion i adfywio a sefydlu Campws Coleg Pen-y-bont ar Ogwr newydd ar y safle.
- Awdurdodi swyddogion i fynd ar drywydd trafodaethau gyda SWP ar gaffael Gorsaf Heddlu Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr gyda Phrotocolau Cyd-leoli Ystadau a Throsglwyddo Tir Llywodraeth Cymru.
- Awdurdodi swyddogion i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar gais am arian grant i gefnogi'r broses gychwynnol o gaffael a dymchwel adeilad presennol Gorsaf yr Heddlu yn y dyfodol,
- Cytuno i dderbyn adroddiad yn y dyfodol ar gynnydd cynlluniau adfywio ar gyfer y safle ar y cyd â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr.
- Os argymhellir ei gymeradwyo, i ddirprwyo derbyn y grant ar gyfer ailddatblygu'r safle i Gyfarwyddwr Gymunedau a Swyddog Adran 151.

679. **GWRTHWYNEBIAD A CHYNRYCHIOLAETH I LWYBR TEITHIO LLESOL ARFAETHEDIG - LLWYBR TEITHIO LLESOL COWBRIDGE ROAD**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen â'r llwybr teithio llesol, gan ystyried y sylwadau ffurfiol a gafwyd mewn perthynas â'r gwelliannau arfaethedig i'r llwybr teithio llesol ar hyd darn o Cowbridge Road, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn rhan o lwybr teithio llesol strategol ehangach Pen-y-bont ar Ogwr i Bencoed. Y cynnig oedd creu cyfleuster teithio llesol parhaol, gan gynnwys gwell cyfleusterau croesi, ehangu llwybrau troed i fod yn llwybr cerdded a beicio a rennir, yn ogystal â lleihau'r terfyn cyflymder presennol ar hyd Cowbridge Road. Roedd y cynllun hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan ei rhaglen Cronfa Teithio Llesol. Derbyniwyd sylwadau i'r cynigion gan drigolion lleol/tirfeddianwyr cyfagos a Chynghorwyr lleol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod dau Aelod lleol ac 19 o drigolion lleol wedi cofrestru gwrthwynebiadau i'r cynnig, a oedd wedi'u crynhoi a'u cynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad. Ystyriwyd bod y llwybr teithio llesol arfaethedig yn hanfodol gan mai dyma'r cyswllt mawr olaf yn rhwydwaith teithio llesol Pencoed i Ben-y-bont ar Ogwr a fyddai, yn ei dro, yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol presennol i Bracla, yn ogystal â NCN 885 a oedd yn cysylltu canol y dref â Gorsaf Reilffordd Pen-y-bont ar Ogwr, Broadlands, a Tondu.

Ystyriodd swyddogion yr holl sylwadau ynglŷn â'r cynigion a mynd ati i greu'r lluniau terfynol ar gyfer y cynllun arfaethedig. Mewn trafodaethau ar ôl ymgysylltu ag Aelodau lleol, cytunwyd i arddangos y darluniau terfynol yn y Swyddfeydd Dinesig i alluogi trigolion lleol Cowbridge Road ac aelodau eraill o'r cyhoedd i weld y cynigion a fyddai'n cael eu gweithredu o'r diwedd.

Amlinellodd y Rheolwr y Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, y pryderon a godwyd gan breswylwyr ac ymatebion CBSP fel y nodir yn yr adroddiad. Esboniodd fod nifer o archwiliadau ac asesiadau risg wedi'u cynnal ac ystyriwyd bod y cynllun yn cydymffurfio'n llawn yn nhermau diogelwch. Roedd manteision gweithredu'r cynllun yn drech na'r pryderon a godwyd.

Darparodd yr Arweinydd Tîm – Datblygu Polisi a Thrafnidiaeth ragor o wybodaeth am barcio ar y stryd, y cynnig am 53m ychwanegol o leoedd lle gallai preswylwyr barcio dros 2 adran, a'r man cyfyng a gynlluniwyd fel y byddai cerddwyr yn ofalus ac y byddai beicwyr yn dod oddi ar eu beiciau.

Ystyriodd y Cabinet sylwadau'r swyddogion mewn ymateb i'r arsylwadau a'r lluniadau terfynol i'w harddangos.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau sicrwydd i'r Cabinet fod y cynigion i gyd yn ddiogel iawn ac y byddai hwn yn llwybr teithio llesol sy'n cydymffurfio. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod diogelwch o'r pwys mwyaf a bod asesiadau diogelwch wedi'u cynnal ar bob cynllun. Y prif bryder oedd diogelwch y rhai sy'n defnyddio'r llwybr hwnnw.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau i'r tîm am adroddiad mor gynhwysfawr. Roedd swyddogion wedi egluro nifer o bwyntiau yn ystod eu cyflwyniad. Roedd enghraifft debyg ym Mhorthcawl, ac ym mhob dinas fawr ledled y DU. Roedd wedi gwrandao a darllen yr holl bryderon a godwyd ac wedi cytuno â'r cynigion fel y'u cyflwynwyd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod hwn yn un cam arall tuag at llwybr teithio amgen cyflawn ar gyfer y Sir gyfan.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd i swyddogion egluro eu hymateb i bryderon a godwyd gan Aelod nad oedd unrhyw ddewisiadau ymarferol eraill, a gofynnodd pa ddewisiadau eraill a ystyriwyd a sut y cawsant eu diystyru. Atebodd Rheolwr y Grŵp, y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu eu bod wedi diystyru'r dewis arall i osod y llwybr ar ochr arall Cowbridge Road. Dyna'r prif ddewis arall a ystyriwyd. Gallai opsiynau eraill fod, ond ni fyddent yn gallu cynnig yr un capasiti â Cowbridge Road. Eglurodd yr Arweinydd Tîm – Datblygu Polisi a Thrafnidiaeth, pan wnaethant ymgynghoriad yn 2015 dyna'r llwybr a ddewiswyd. Nododd Canllawiau Teithio Llesol fod yn rhaid i'r llwybr fod yn uniongyrchol a bod yn rhaid i aneddiadau o 2000 neu fwy gael eu cysylltu â'r llwybr mwyaf uniongyrchol posibl, a Cowbridge Road oedd y llwybr mwyaf uniongyrchol.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd ble y byddai'r arwyddion i ddod oddi ar feiciau wedi'u lleoli. Atebodd yr Arweinydd Tîm - Datblygu Polisi a Thrafnidiaeth y byddent yn cael eu gosod rownd y gornel yr eiddo yn rhif 79 a ger y gyffordd â chyswllt Asda. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y byddai'r manau cyfyng a'r cyfyngiadau hyn yn bodoli. Pe na bai'r cyswllt hwn yn cael ei ddarparu, byddai pobl yn parhau i feicio naill ai ar y ffordd neu'r palmentydd a byddai hyn yn beryglus. Byddai'r cynllun hwn yn rhoi'r hawl tramwy i bob defnyddiwr ar y ffordd a byddai hyn yn welliant mawr dros y sefyllfa bresennol. Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r swyddogion am eu hymateb.

Rhannodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn ymwybodol o breswylwyr a fyddai'n defnyddio'r llwybr i gyrraedd y gwaith ac y byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w diogelwch a'u hamseroedd teithio. Gofynnodd sut y byddai modurwyr yn gwybod, wrth ymadael â'r cyffyrdd, y dylent wirio'r ddau gyfeiriad. Atebodd yr Arweinydd Tîm – Datblygu Polisi a Thrafnidiaeth y byddai arwyddion a byddai'n rhaid i feicwyr stopio pe byddent yn gweld cerbydau'n gadael neu'n mynd i mewn i eiddo. Byddai'n rhaid i bob defnyddiwr ffordd fod yn sylwgar ac yn ofalus. Gofynnodd yr aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar a fu unrhyw drafodaethau gyda'r coleg. Atebodd yr Arweinydd Tîm – Datblygu Polisi a Thrafnidiaeth eu bod yn ymgynghori â'r coleg a'u bod wedi cynnal sesiwn yn y coleg. Roedd y coleg yn Hyrwyddwr Cynllun Teithio ac yn cefnogi CBSP a byddent yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor ar y ddau gampws.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at bryderon aelodau'r ward a fu'n ddiwyd wrth gynrychioli eu hetholwyr a chynnal gohebiaeth helaeth â swyddogion. Un mater yn benodol oedd creu Llwybr Teithio Llesol ar hyd cyfres o gyffyrdd. Roedd swyddogion wedi dweud bod enghreifftiau yng Nghymru ac roedd tystiolaeth ei fod yn ddiogel a bod pobl wedi addasu a newid eu hymddygiad. Nid oedd unrhyw sicrwydd, ond roedd y dyluniad hwnnw wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus mewn manau eraill. Hefyd, pe bai'r cynllun yn mynd rhagddo a bod problemau yn cael eu canfod, byddent yn ystyried y rheini ac yn cymryd camau priodol i liniaru'r rheini, er yr ystyriwyd bod y dyluniad yn ddiogel. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau ei fod yn Gynllun Teithio Llesol sy'n cydymffurfio â Llywodraeth Cymru, ac nid oedd yn anarferol croesi cyffyrdd a bod mesurau lliniaru ar waith. Dyma sut y cafodd ei ddarparu yn Abertawe a Chaerdydd a phob bwrdeistref arall ledled Cymru. Pe bai problemau, byddai oherwydd diwylliant ac ymddygiadau newidiol, ac os byddai angen byddent yn adolygu ac yn defnyddio canllawiau ac arwyddion.

Awgrymodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau y dylid diwygio'r penderfyniad i adlewyrchu'r ffaith bod y Cabinet wedi nodi'r gwrthwynebiadau a rhoi sylw dyledus iddynt cyn penderfynu bwrw ymlaen.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mai diben yr arddangosfa oedd dangos bod swyddogion wedi gwrandao ar y pryderon a godwyd, wedi diwygio a chymeradwyo'r cynlluniau, ac i ddangos y dyluniad terfynol a fyddai'n cael ei weithredu.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

- Ystyried y gwrthwynebiadau a gafwyd a'r ymatebion a wnaed i lwybr teithio llesol arfaethedig Cowbridge Road.
- Nodi ac a rhoi sylw dyledus i'r gwrthwynebiadau ac wedi awdurdodi gweithredu llwybr teithio llesol Cowbridge Road a fyddai'n cwblhau'r cyswllt mawr olaf yn rhwydwaith teithio llesol Pencoed i Ben-y-bont ar Ogwr.
- Cymeradwyo y dyluniad terfynol.
- Cymeradwy gosod y dyluniad terfynol ar arddangosfa gyhoeddus am gyfnod penodol.

680. **ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2020-21**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am berfformiad ariannol refeniw'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Ar 26 Chwefror 2020, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net o £286.885 miliwn ar gyfer 2020-21. Fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, cafodd yr amcanestyniadau cyllideb eu hadolygu'n rheolaidd a'u hadrodd i'r Cabinet bob chwarter. Cafodd y cyflawniad o'r gostyngiadau cyllideb a gytunwyd arnynt ei hadolygu hefyd a'i hadrodd i'r Cabinet fel rhan o'r broses hon.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod blwyddyn ariannol 2020-21 wedi bod yn flwyddyn unigryw a chymhleth o ran rheoli sefyllfa ariannol y Cyngor yn bennaf o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd newidiadau sylweddol wedi digwydd drwy gydol y flwyddyn wrth i amgylchiadau newid, ac i wasanaethau dderbyn cefnogaeth mewn gwahanol ffyrdd i gyflawni canlyniadau yn y ffordd orau bosibl. Sefydlwyd cronfa Caledi Covid-19 o £188.5 miliwn yn gynnar gan Lywodraeth Cymru, ac roedd y Cyngor wedi gallu ei defnyddio ar gyfer cymorth ariannol. Bu'r Cyngor yn hynod lwyddiannus o ran sicrhau cefnogaeth i lawer o'r costau ychwanegol ynghyd â cholledion hawliadau incwm. Daeth rhai o ganlyniadau'r llwyddiant hwn i'r amlwg yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol gan roi sefyllfa fwy ffafriol i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn na'r disgwyl. Cyfanswm yr hawliadau yn erbyn cronfa Caledi Llywodraeth Cymru oedd £21.5 miliwn, a dim ond £882,000 a wrthodwyd. Y newid sylweddol arall rhwng chwarter 3 a chwarter 4 oedd y cyfraniad o £1.261 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021 i gydnabod y cyfraddau casglu treth gyngor is a gafwyd gan Gyngorau yn 2020-21 o ganlyniad i bandemig Covid-19. Llwyddodd y Cyngor ddefnyddio rhywfaint o'r arian hwn i fuddsoddi i helpu i gyflymu adferiad y Fwrdeistref Sirol yn sgil COVID ac i gefnogi ei thrigolion. Amlinellwyd y meysydd buddsoddi allweddol yn Atodiad 1 i'r adroddiad a dangoswyd cyllideb refeniw net y Cyngor a'r alldro terfynol ar gyfer 2020-21 yn Nhabl 1 yr adroddiad.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod yr alldro cyffredinol ar 31 Mawrth 2021 yn danwariant net o £432,000 a drosglwyddwyd i Gronfa'r Cyngor, gan ddod â chyfanswm balans y Gronfa i £9.771 miliwn yn unol ag Egwyddor 9 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS). Darparodd cyfanswm cyllidebau'r Gyfarwyddiaeth danwariant net o £5.479 miliwn, a chyllidebau'r Cyngor Cyfan danwariant net o £11.726 miliwn. Roedd y Cyngor mewn sefyllfa i ddefnyddio'r arian ar gyfer 2020-21 i ariannu amrywiaeth o fentrau i alluogi'r Cyngor i liniaru risgiau ac ymrwymadau gwariant yn awr ac yn y dyfodol er mwyn talu costau penodol fel ym mharagraff 4.1.1 ac Atodiad 1. Roedd y sefyllfa net hefyd yn ystyried tanwariant net o £1.702 miliwn ar incwm y dreth gyngor yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd y sefyllfa alldro hefyd wedi'i effeithio gan gyllid grant annisgwyl a chynyddu ffrydiau ariannu grantiau i'r eithaf ers chwarter 3 yng nghyllidebau'r Gyfarwyddiaeth o dros £2.361 miliwn a £2.393 miliwn mewn Cyllidebau ar draws y Cyngor - cyfanswm o £4.754 miliwn. Pwysleisiodd na fyddai'r Awdurdod wedi bod yn ymwybodol o'r ffrydiau ariannu hyn wrth bennu a chymeradwyo ei gyllideb ar gyfer 2020-21 a bod y rhan fwyaf o'r grantiau ychwanegol yn rhai untro o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid y ffyrdd yr oedd Covid 19 wedi cael effaith ar sefyllfa ariannol y cyngor fel yn nhabl 4.1.12 yr adroddiad. Dangosodd Tablau 3 a 4 yr hawliadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2020-21 a chanlyniad yr hawliadau. Dangosodd Tabl 5 y gostyngiadau eithriadol yng nghyllideb y flwyddyn flaenorol a thabl 6 oedd monitro gostyngiadau yn y gyllideb. Roedd Tabl 7, Gostyngiadau Eithriadol yn y Gyllideb yn cynnwys manylion ynghylch pam nad oedd rhai wedi'u cyflawni. Cafodd crynodeb o'r sefyllfa ariannol ar gyfer pob prif faes gwasanaeth ei gynnwys yn Atodiad 4 i'r adroddiad a darparwyd sylwadau ar yr amrywiannau mwyaf arwyddocaol.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y tanwariant o'r arian ychwanegol yn ffactor sylweddol a oedd yn cuddio'r hyn a oedd yn dal i fod yn sefyllfa ddiffygiol sylfaenol mewn llawer o'r Gyfarwyddiaethau ac mewn llawer o'r ysgolion. Roedd gan Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol a Gofal Cymdeithasol i Oedolion orwariant cyfunol o £2 filiwn.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid at yr ysgolion a'r newid sylweddol ym malansau ysgolion, o ragweld cyfanswm o £108k o warged i £8.4

miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, a'r rhesymau pam y cawsant eu derbyn. Byddent yn cael eu rheoli yn unol â phrotocolau ariannol a'u gwario yn unol â'r telerau ac amodau. Dangosodd Tabl 8 y cyllid a dynnwyd, dangosodd Tabl 9 safle diwedd y flwyddyn a dangosodd Tabl 10 safle Cyfanswm y Gronfa.

Esboniodd yr Arweinydd fod adroddiadau rheolaidd yn cael eu gwneud a'r prif newid yn y chwarter diwethaf oedd y tâl a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a grantiau ychwanegol. Roedd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi a gallai'r aelodau gysylltu â'r swyddogion os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod y ffigurau yn yr adroddiad yn afreal ac na ellid bod wedi'u rhagweld pan bennwyd y gyllideb flynyddol. Diolchodd i'r Tîm Cyllid am y cymorth yr oeddent wedi'i roi i fusnesau lleol ac am yr ymdrech anhygoel yr oeddent wedi'i wneud. Diolchodd hefyd i Lywodraeth Cymru, gan y byddai'r awdurdod mewn sefyllfa wahanol iawn oni bai am eu cefnogaeth.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi nodi'r sefyllfa alldro referniw ar gyfer 2020-21.

681. **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYFALAF**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn gofyn am gytundeb gan y Cabinet i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 i 2030-31.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cyngor, ar 24 Chwefror 2021, wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2020-21 i 2030-31 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS). Ers hynny, roedd adolygiad wedi'i gynnal o'r adnoddau cyfalaf sydd ar gael, gan ystyried cyllid heb ei neilltuo yn y rhaglen gyfalaf, y sefyllfa referniw diwedd blwyddyn ddisgwyliedig ar gyfer 2020-21, y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a chyllidebau referniw sydd ar gael ar gyfer 2021-22. O ganlyniad, roedd nifer o gynlluniau cyfalaf newydd wedi'u cynnig gan Gyfarwyddiaethau a oedd wedi cael eu hadolygu a'u herio'n drylwyr gan aelodau'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet, cyn cael eu cyflwyno i'w cynnwys yn y rhaglen gyfalaf. Roedd yr adroddiad hwn ond yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau newydd o fewn y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021.

Cyfanswm y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021 ar gyfer y cyfnod 2020-21 i 2030-31 oedd £205.732 miliwn, y byddai £116.147 miliwn ohono'n cael ei dalu o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau referniw o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gyda'r £89.585 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol. Cyfanswm cost y cynlluniau newydd oedd £4,552,271 a dadansoddwyd hyn yn Nhabl 1, gyda Thabl 2 yn dangos dadansoddiad o'r cyllid ar gyfer y cynlluniau cyfalaf newydd arfaethedig.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod rhai cynlluniau newydd cyffrous iawn, gan gynnwys newid y system teledu cylch cyfyng a'r gwaith o adnewyddu llwybrau troed a meysydd chwarae.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod rhai buddsoddiadau pwysig a fyddai'n galluogi'r awdurdod i symud ymlaen, gyda chefnogaeth pob aelod. Roedd yn gwella hyblygrwydd, oherwydd bod gormod o geisiadau am y Rhaglen Gyfalaf.

PENDERFYNIAD: Bod y Cabinet wedi cytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad A i'r adroddiad) i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

682. **ATAL RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT A DYFARNU CONTRACT AR GYFER Y GWASANAETH CYNGOR A CHYMORTH ARIANNOL**

Datganodd y Cyngorydd Patel fuddiant rhagfarnlyd yn yr eitem hon gan iddi gael ei phenodi i Fwrdd Ymddiriedolwyr y darparwr presennol a gadawodd y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem hon.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i barhau â'r ddarpariaeth Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Ariannol presennol, er mwyn caniatáu amser i gynnal proses dendro sy'n cydymffurfio'n llawn, gan gynnwys cyfnod paratoi digonol. Ceisiwyd cymeradwyaeth hefyd i atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contract (CPRs) y Cyngor o ran y gofyniad i ail dendro'r contractau a nodir yn yr adroddiad hwn, ac i awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth i ymrwymo i gontract tymor byr (4 mis) gyda'r darparwr presennol i sicrhau parhad gwasanaeth

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y contract wedi dechrau ar 1 Hydref 2018 a'i fod i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth 2021. CAB ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd y cynigydd llwyddiannus. Bu'r contract yn llwyddiannus iawn a helpodd nifer o breswylwyr a oedd wedi cael anawsterau yn y meysydd hyn. Addaswyd y contract ddwywaith, y tro cyntaf i'w ymestyn o gyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2021, ac yna i'w ymestyn am fis arall i 30 Mehefin 2021.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod CAB wedi gwneud gwaith rhagorol a bod nifer o drigolion o'i chymuned wedi galw arnynt am gymorth am y tro cyntaf erioed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn gwerthfawrogi'r amynedd, y sgiliau a'r empathi a oedd gan y staff i helpu'r rhai mewn trafferthion enbyd.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod angen iddynt sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau nes y gallent ei ailgomisiynu fel rhan o'r broses hon.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

- Cymeradwyo parhad y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Ariannol presennol, er mwyn caniatáu amser i gynnal proses dendro sy'n cydymffurfio'n llawn.
- Atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad i ail-dendro'r contract arfaethedig;

Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth i ymrwymo i gontract ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Ariannol gyda CAB tan 31 Hydref 2021.

683. **CYNRYCHIOLAETH AR GYDBWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i benodi Aelodau i gydbwyllgorau ac i enwebu Aelodau i gyrff allanol. Roedd rhestr o'r cydbwyllgorau a'r gyrff allanol dan sylw wedi'i hatodi i'r adroddiad yn Atodiad 1. Cynigiwyd y dylid penodi Aelodau am gyfnod o flwyddyn ac eithrio pan oedd yn briodol i ddirymu penodiad yn gynharach. Pan fyddai'r Cabinet yn enwebu ar sail rôl Aelod o fewn yr Awdurdod, cynigiwyd y dylid cysylltu'r penodiad i'r rôl yn hytrach nac i'r Aelod unigol, e.e. Cadeirydd Craffu, Aelod Cabinet.

CABINET - DYDD MAWRTH, 22 MEHEFIN 2021

PENDERFYNIAD: Bod y Cabinet yn penodi'r nifer ofynnol o Aelodau i'r cydbwyllgorau a chyrrff allanol eraill fel y rhestrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

684. **BLAENRAGLENNI GWAITH**

Cyflwynodd y Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i eitemau gael eu cynnwys ar y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref 2021 ac i'r Cabinet nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a Throsolwg a Chraffu am yr un cyfnod.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

- Cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref 2021 yn Atodiad 1;

Nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a Throsolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod ag uchod, a ddangosir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad, yn y drefn honno.

685. **EITEMAU BRYD**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 18:40